Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Care Home Ltd**

**Cartref Care Home**
**Henllan**
**Llandysul**
**SA44 5TD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

07/03/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at :psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Chartref Care Home Ltd

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | CARTREF CARE HOME LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi, ac yn ceisio diwallu anghenion Cymraeg pobl sy'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio, ei wasanaeth. |

### Crynodeb

Mae Cartref Care Home wedi profi nifer sylweddol o achosion o COVID-19 (Chwefror 2022). Yn sgil canfyddiadau gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld, mae'r awdurdod lleol wedi rhoi prosesau monitro a pherfformiad ar waith. Wrth weithio gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol allanol i ymateb i'r achosion, bu effaith negyddol ar lesiant rhai pobl.

Roedd y bobl a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir gan dîm o staff ymroddedig. Mae'r gwasanaeth yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant, y Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i bobl orfod gofyn amdano.

Mae tîm rheoli newydd yn ei le sydd angen cymorth pellach i sicrhau bod gofynion rheoliadol yn cael eu bodloni. Mae'r rheolwr wrthi'n gweithio tuag at lefel 5 yn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau, a chofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn yr arolygiad hwn, nodwyd achosion o dorri rheoliadau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gweithio gydag AGC i fynd i'r afael â'r rhain er mwyn sicrhau y gellir cyflawni nodau llesiant ac iechyd pobl yn llawn.

## Llesiant

Mae'r bobl yn hapus eu bod wedi dewis byw yn Cartref. Gwnaethom siarad â pherthnasau a ddywedodd wrthym fod aelodau o'u teulu wedi dewis y cartref yn benodol gan eu bod yn ei adnabod yn dda, yn hoffi ei gysylltiadau cryf â'r gymuned, ei werthfawrogiad o'r Gymraeg a'i diwylliant, ac enw da'r cartref. Dywedodd un unigolyn y gwnaethom siarad ag ef wrthym ei fod wedi dewis y cartref yn benodol uwchlaw sawl un arall, a'i fod yn hapus ei fod wedi gwneud y dewis cywir. Mae pobl yn gwneud cyfeillgarwch cryf yn y cartref, naill ai gyda phobl newydd neu ffrindiau yr oeddent yn eu hadnabod ers blynyddoedd lawer. Mae'r staff yn gweithio'n galed i gefnogi, cynnal ac annog cyfeillgarwch a chysylltiadau â'r gymuned ehangach er gwaethaf cyfyngiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gan weithwyr gofal berthynas dda â phobl ac maent yn rhyngweithio mewn ffyrdd cadarnhaol, gyda sgyrsiau llawn hiwmor. Gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith. Waeth beth fo'r cyfyngiadau oherwydd nifer yr achosion, gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hoffi byw yn Cartref.

Ni all y bobl ddewis lle i dreulio'u hamser, ni allant symud yn annibynnol o gwmpas eu cartref na dewis pwy maent am gymdeithasu â nhw. Mynegodd y bobl y gwnaethom siarad â hwy, y staff gofal a'r tîm rheoli eu tristwch ynghylch yr effaith negyddol yr oedd y camau i atal trosglwyddo'r haint yn eu cael arnynt i gyd. Mae angen llunio asesiadau risg a chynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu i liniaru'r canlyniadau negyddol hyn. Byddwn yn rhoi sylw i hwn yn ystod yr arolygiad nesaf.

Cyn ac yn ystod yr achosion yn Cartref, nid oedd pobl yn gallu croesawu ymwelwyr yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau'n rhoi cyngor ar gydbwyso hawliau pobl â'r risgiau o COVID-19. Mae'r tîm rheoli'n gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod gan bobl yr hawl i gael ymweliadau gan deulu a ffrindiau. Mae AGC wedi gofyn am gopi o'r polisi ymweld ond nid yw hwn wedi dod i law. Ers hynny, rydym wedi cael gwybod y bydd Cartref yn rhoi polisi ymweld wedi'i ddiweddaru i ni yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r bobl yn personoli eu hamgylchedd yn unol â'u diddordebau a'u hoffterau. Fodd bynnag, mae'r newidiadau a wnaed i ardaloedd cymunol yn sgil nifer yr achosion yn effeithio ar lesiant pobl. Mae'r newidiadau hyn yn peri gofid i bobl. Er bod pobl sy'n gallu deall yn gallu gwerthfawrogi'r gofynion ynghylch canllawiau a chyfyngiadau, maent wedi'u cynhyrfu gan yr effaith ar eu bywydau bob dydd; *"Rwy'n gweld eisiau'r lluniau, roeddwn i'n eu gweld yn ddiddorol. Mae'n drist iawn".* Mae gan y cartref amserlen fanwl ar gyfer glanhau trwyadl sy'n golygu nad yw rhai mannau yn hygyrch i bobl eu defnyddio os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Nid oedd y gwasanaeth yn teimlo'n gartrefol, a dywedodd un gweithiwr gofal, *"mae'n debycach i ysbyty na'u cartref".* Mae angen cynnal asesiadau risg unigol i gefnogi pobl i liniaru'r canlyniadau negyddol hyn, cyn belled ag y bo modd. Mae AGC wedi rhoi offeryn archwilio King's Fund i'r Unigolyn Cyfrifol i gefnogi amgylchedd mwy priodol i bobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r

Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd bod pob ardal cymunol yn gwbl hygyrch i bobl fel y maent yn ei ddymuno. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn siarad yn gadarnhaol am eu gwaith. Mae'r staff gofal wedi ymrwymo i ddarparu gofal a chymorth o safon. Yn ystod yr ymweliad arolygu, dywedodd y staff gofal a'r tîm rheoli wrthym fod morâl yn isel oherwydd effaith yr achosion o COVID-19. Mae angen gwneud rhagor o waith ar gynlluniau gofal a chymorth personol er mwyn llywio'r broses o ddarparu gofal yn well a hyrwyddo llesiant pobl. Er bod rhai gwelliannau wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf, mae angen gwneud gwaith pellach. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Yn gyffredinol, mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae'r polisi a'r weithdrefn diogelu yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae'r staff gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw pobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac maent yn teimlo'n hyderus o ran ei defnyddio os bydd angen. Fodd bynnag, nid yw'r broses recriwtio yn gyson gadarn. Mae hwn yn fater difrifol ac mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi.

## Gofal a Chymorth

Mae llesiant yn cael ei hyrwyddo gan holl staff Cartref. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a chyfeillgar rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Roedd perthnasau'n canmol trefniadau i ddathlu penblwyddi a chynnal cysylltiadau â chymuned eu perthynas. Dywedwyd wrthym faint roedd pobl wedi mwynhau'r bwyd a ddarparwyd gan y cogydd, sydd bob amser yn *"mynd yr ail filltir".* Mae pwysau pobl yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Roedd y bwyd a gafodd ei goginio i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn edrych ac yn arogli'n flasus. Roedd pawb y buom yn siarad â nhw yn edrych ymlaen yn arbennig at y diwrnod arbennig hwn. Roeddent yn pitïo bod y cyfyngiadau yn golygu nad oedd modd dathlu yn iawn. Mae'r cyfyngiadau presennol yn golygu bod rhyngweithiadau'n fyr oherwydd bod angen gweithwyr gofal mewn gwahanol ardaloedd yn yr adeilad. Er enghraifft, dim ond un unigolyn y mae gweithiwr gofal yn gallu canolbwyntio arno yn ystod amser cinio, ac ni all gynnwys eraill mewn trafodaethau gan eu bod yn eistedd mor bell oddi wrth ei gilydd ac yn methu â chlywed. Pan fydd staff gyda phobl, maent yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau cyfathrebu, sy'n hyrwyddo trafodaeth ddiddorol a brwdfrydig, ond ni ellir cynnal hyn heb gynnwys staff. Mae AGC wedi cael gwybod bod cadw pellter cymdeithasol yn yr ystafell fwyta a'r lolfa bellach wedi dod i ben. Dywedwyd wrthym nad yw pobl bellach yn dilyn rota i fwyta eu prydau yn eu hystafelloedd neu yn yr ystafell fwyta. Dywedwyd wrthym hefyd fod gweithgareddau cymdeithasol yn ailddechrau. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf. O'n trafodaethau gyda staff, maent yn angerddol am y cymorth y maent yn ei gynnig ac yn rhwystredig iawn gan effaith y cyfyngiadau a'r effaith andwyol ar y bobl sy'n byw yn y cartref.

Mae lefelau digonol o staff ar waith i ddiwallu anghenion gofal y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r lefelau staffio yn unol â'r rhai a nodir yn y Datganiad o Ddiben. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau gan bobl mewn modd amserol ac mae'r rhyngweithio'n gyfeillgar ac yn barchus. Gwelsom staff yn ymateb yn gyflym i larymau drws yn canu. Gwneir ceisiadau i'r tîm nyrsio ardal am gymorth a chyngor mewn modd amserol. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod cynlluniau personol yn llywio'r camau a gymerir. Gwelsom nad yw'r wybodaeth ddiweddaraf bob amser yn cael ei chofnodi yn y cynllun personol ac nad yw asesiadau risg yn cael eu diweddaru. Caiff cynlluniau eu hadolygu ond nid ydynt yn cynnwys manylion, yn hytrach maent ond yn cynnwys llofnod. Fel y nodwyd yn yr arolygiad diwethaf, cedwir gwybodaeth mewn gwahanol ddogfennau a chaiff ei dyblygu. Mae angen i wybodaeth allweddol am sut y gellir bodloni dyheadau a chanlyniadau pobl fod yn hygyrch i bob aelod o staff. Nid yw gwybodaeth am hoff bethau a chas bethau pobl a'u cyfranogiad mewn gweithgareddau yn cael ei chofnodi'n gyson. Trafodwyd y materion hyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Ni all pobl fod yn hyderus bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi neu ei storio'n ddiogel yn unol â'r polisi meddyginiaeth neu arfer gorau. Mae'r staff y siaradwyd â nhw yn cydnabod eu bod yn ymwybodol nad ydynt yn rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r arferion presennol yn peri

risg i iechyd pobl a  chodwyd gyda’r rheolwr a’r unigolyn cyfrifol i gael sylw ar unwaith. Mae hwn yn fater difrifol y rhoddir hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth iddo.

## Yr Amgylchedd

Nid yw'r bobl ar hyn o bryd yn cael cymorth mewn amgylchedd cartrefol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi dod o hyd i gwmni glanhau proffesiynol allanol i lanhau'r cartref cyfan yn drylwyr. I wneud hyn bu'n rhaid symud yr holl eitemau, cyfyngu mynediad i ardaloedd penodol, symud eitemau i gyfeirio pobl o gwmpas y cartref, arwyddion dwyieithog, eitemau diwylliannol berthnasol, a phlanhigion. Roedd un unigolyn y buom yn siarad â hi yn hapus iawn ei bod yn gallu cael blodau yn ei hystafell ei hun, gan fod hyn yn bwysig iddi. Mae'r cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân, ond nid oedd y staff a'r bobl y siaradwyd â hwy yn hoffi naws sefydliadol presennol yr amgylchedd. Mae digon o le yn yr ystafelloedd gwely ac maent wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r preswylydd, gyda thrugareddau addurniadol, ffabrigau, lluniau a dodrefn. Roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon iawn ar eu hystafelloedd. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn hoff iawn o'r ystafell en suite fawr a'r olygfa o'i ffenestr i'r coetir. Mae trafodaethau â'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC y bydd amgylchedd y cartref yn cael ei adfer i'w deimlad cartrefol blaenorol.

Mae pobl yn ddiogel rhag ymwelwyr anawdurdodedig yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt cyn gallu mynd i mewn. Fodd bynnag, ni ofynnwyd i staff AGC fewngofnodi/allgofnodi. Ni ddilynwyd canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch ymwelwyr â'r cartref ar y diwrnod. Mae cofnodion gofal personol a gwybodaeth gyfrinachol pobl yn cael eu storio'n ddiogel.

Nid oes rhwystrau i'r allanfeydd tân. Mae'r holl ddefnyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) yn cael eu storio yn gywir, yn unol â rheoliadau COSHH 2002. Cynhelir archwiliadau diogelwch trydan a nwy o fewn yr amserlenni a argymhellir. Mae unigolyn cynnal a chadw yn sicrhau yr ymdrinnir â materion o ddydd i ddydd yn brydlon, yn ogystal â chynnal gwiriadau diogelwch. Fodd bynnag, rhaid i asesiadau risg fod ar waith i sicrhau bod urddas a phreifatrwydd pobl yn cael eu cynnal pan fydd gwaith yn cael ei wneud yn y cartref. Gofynnodd AGC am dystiolaeth o archwiliadau a gynhaliwyd ers mis Tachwedd 2021, ond nid yw wedi eu derbyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae angen gwella’r gwaith o oruchwylio’r cartref, y tîm rheoli a'r staff er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn weladwy iawn yn y cartref, gan ei fod yn bresennol bron bob dydd a gellir cysylltu ag ef bob amser. Mae'n adnabyddus i’r staff a’r bobl sydd wedi dewis gwneud Cartref yn gartref iddynt. Cwblheir yr ymweliadau chwarterol gofynnol a chwblheir adroddiad ansawdd gofal. Fodd bynnag, mae angen rhagor o fanylion ar y rhain i sicrhau llywodraethu a gwelliant parhaus lle nodir camau gweithredu. Mae angen cymorth a goruchwyliaeth bellach ar y tîm rheoli newydd i roi newid ar waith ac i hyrwyddo tryloywder. Nid yw’r gweithdrefnau cywir ar gyfer cyflwyno hysbysiadau i AGC mewn modd amserol yn cael eu dilyn yn gyson. Nid yw AGC yn cael ei hysbysu’n gyson am faterion sy’n effeithio ar iechyd a llesiant y rhai sy’n byw yn Cartref. Rydym wedi nodi bod hwn yn faes i’w wella.

Dywedodd yr holl staff a'r bobl y siaradwyd â nhw wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato. Gwelsom ryngweithio caredig rhwng y rheolwr a'r bobl. Dywedodd perthnasau wrthym fod y sianeli cyfathrebu yn dda a'u bod yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu hanwyliaid. Nid oedd gan bob aelod o staff hyder i godi unrhyw broblemau oherwydd eu bod yn teimlo na fyddai eu hawgrymiadau'n cael eu gweithredu.

Ni all pobl fod yn hyderus bod staff bob amser yn cael yr wybodaeth gywir a'r hyfforddiant cywir i gefnogi arferion gorau. Er bod polisïau a gweithdrefnau ar waith, nid yw rhai o'r rhain yn cael eu hadolygu'n ystyrlon; maent yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio ac yn cael eu diwygio gan ddefnyddio *tipex*. Mae'r polisi COVID-19 yn anghywir, wedi dyddio ac nid yw wedi'i adolygu. Nid yw'r polisi meddyginiaeth yn cael ei ddilyn. Nid oes cynllun wrth gefn ar waith ar gyfer COVID-19. Mae hyn yn golygu nad oes gan staff gofal bob amser fynediad at bolisïau a phrotocolau cywir sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal o ansawdd uchel yn ddiogel. Trafodwyd y materion hyn gyda'r Unigolyn Cyfrifol ac mae'n faes i'w wella y disgwyliwn iddo gael ei weithredu.

Cafodd AGC drafodaeth â rhai o'r staff am unrhyw hyfforddiant yr oeddent wedi'i gwblhau'n ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau hyfforddi mewn rhai ffeiliau staff a gwelsom fod wyth aelod o staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia ar-lein. Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym nad yw bob amser yn hawdd cael mynediad at hyfforddiant ar-lein bob ac felly roeddent yn pryderu nad oedd eu hyfforddiant yn gyfredol. Fel yr argymhellwyd yn yr arolygiad diwethaf, byddai matrics hyfforddi yn golygu bod modd gweld yn hawdd pa hyfforddiant y mae angen iddynt ei gwblhau neu'r hyfforddiant sydd wedi'i gwblhau. Mae AGC wedi gofyn am gopi o'r matrics hyfforddi, ond nid yw hwn wedi dod i law. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ansicr ynghylch y prosesau a'r gofynion parhaus i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dangosodd adolygiad o ffeiliau staff eu bod yn drefnus. Ar y cyfan, cynhelir sesiynau goruchwylio ystyrlon, sy'n cynnwys mynd i'r afael â materion disgyblu. Fodd bynnag, dylid trafod pynciau fel diweddaru hyfforddiant a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae rhai sesiynau goruchwylio yn hwyr. Nid yw'r prosesau recriwtio yn gyson gadarn. Fel y cyfryw, mae risg y bydd staff nad ydynt yn addas ar gyfer eu rôl yn cael eu recriwtio i gefnogi pobl. Mae hwn yn fater difrifol, ac mae hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth wedi'i gyhoeddi.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 58 | Methiant i roi meddyginiaeth mewn modd diogel yn unol ag arferion a gwasanaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth Polisi meddyginiaeth. Methiant i storio meddyginiaeth yn ddiogel. | Yn newydd |
| 35 | Methiant i roi tystiolaeth i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â'r gofynion, methiant i wirio gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, methiant i gadw dau eirda ar gyfer un aelod o staff, methiant i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd a sgil gan fod sesiynau goruchwylio wedi dyddio, methiant i gyflogi rheolwr sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Yn newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 12 | Nid yw'r polisïau na’r gweithdrefnau yn gyfredol ac felly nid ydynt yn arwain staff yn effeithiol. | Yn newydd |
| 6 | Diffygion o ran goruchwyliaeth a llywodraethu cyffredinol - yn benodol i sicrhau bod archwiliadau, adolygiadau, sesiynau goruchwylio a diweddariadau yn cael eu cynnal mewn modd amserol | Yn newydd |
| 15 | Methiant i ddarparu gwybodaeth am sut mae pobl yn gallu cyflawni eu canlyniadau personol, methiant i gyflenwi digon o wybodaeth i gefnogi staff gofal i ddarparu gofal o ddydd i ddydd, methiant i ddiweddaru asesiadau risg mewn modd amserol gyda gwybodaeth ystyrlon yn dilyn digwyddiad/digwyddiad arwyddocaol. | Yn newydd |
| 43 | Mewn ymateb i'r cynllun gweithredu a luniwyd gan y tîm atal a rheoli heintiau i gefnogi cyfarfodydd rheoli COVID-19, roedd nifer o fannau nad oeddent bellach yn hygyrch i bobl, fel y nodwyd yn y Datganiad o Ddiben. Mae'r lolfa a'r ystafell fwyta wedi'u gosod allan er mwyn cynnal pellter cymdeithasol. Tynnwyd eitemau i alluogi cyfeiriadedd annibynnol o amgylch y cartref - gan gynnwys arwyddion dwyieithog. Nid yw'r amgylchedd yn cefnogi nac yn galluogi pobl i gyflawni canlyniadau personol nac yn hyrwyddo llesiant | Yn newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/04/2022